

**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo ar ddydd Mercher 5ed Mai 2021, yn dechrau am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, A. R. James, K. R. Jones, Mrs. P. M. Jones, Ms J. McAlpine, Mrs W. M. Mullen-James, Miss S. Roberts, Ms V. Roberts, a T. Thomas.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

**34. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr J. Ball, B. Blakeley, B. Jones, Mrs D. L. King, B. Mellor, P. Prendergast a Miss C. L. Williams, a chan Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref (gwyliau blynyddol).

**35. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) – EBRILL 2021**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu atodlen o daliadau a wnaed.

Rhif Taleb	Enw'r cyflenwr	Swm £	Disgrifiad o'r Nwyddau a;r gwasanaethau
1137	Shire Leasing	337.33	Prydles System Ffôn Avaya 21/22 1 o 4
1138	BT	436.18	Rhentu llinell a galwadau
1139	HSBC	7.40	Taliadau Banc 17 Chwe 2021 - 16 Mawrth 2021
1140	Cyngor Sir Ddinbych	732.25	AAC Swyddfeydd Dinesig Ffordd Wellington – taliad 1 o 10
1141	Gunsmoke Communications	1,440.00	Ffi rheoli Mawrth 2021
1142	CThEM	2,804.70	Didyniadau PAYE Mawrth 2021
1143	Cyngor Sir y Fflint (Cornfa Bensiwn Clwyd)	4,294.23	Cyfraniadau Pensiwn ac ariannu diffyg Mawrth 2021
1144	Cyflogau staff	7,363.37	Cyflogau staff Ebrill 2021
	<b>Cyfanswm taliadau</b>	<b>17,415.46</b>	

Categori	Disgrifiad	Swm
Santander	Llog ar Gyfrif Rhybudd 31 diwrnod	<b>23.57</b>
HSBC	Llog ar gyfrif adneuo 7 diwrnod	0.54
HSBC	Llog ar gyfrif adneuo 7 diwrnod	0.54
HSBC	Llog ar gyfrif adneuo 7 diwrnod	0.54
HSBC	Llog ar gyfrif adneuo 7 diwrnod	0.54
HSBC	Llog ar gyfrif adneuo 7 diwrnod	0.54
CSDd	Prassept – 1 o 3 ar gyfer 2021/22	184,537.00
	<b>Cyfanswm incwm</b>	<b>184,563.27</b>

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r adroddiad.

**36. AWURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)**

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017 ac yn unol â'r rheoliadau ariannol a fabwysiadwyd gan y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau afreolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen).

Rhif Taleb	Enw'r cyflenwr	Disgrifiad o'r gwasanaeth	Swm £
1146	Sage & Co	Gwasanaethau cyflogres Ionawr – Mawrth 2021	£93.00
1147	Sioned Graham Cameron	Gwasanaethau Cyfieithu	£170.00
<b>Cyfanswm</b>			<b>£263.00</b>

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r atodlen ar gyfer ei thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.

**PENDERFYNWYD YMHELLACH** atal y Rheolau Sefydlog er mwyn i Clerc y Dref fedru ymateb fel mater o frys.

**37. CYFRIFON A CHRONFEYDD WRTH GEFN DROS DRO DIWEDD Y FLWYDDYN**

Cyflwynodd Clerc y Dref ei gyd-adroddiad ef a'r Swyddog Cyllid (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) yn nodi sefyllfa ariannol y cyngor ar 31ain Mawrth 2021 a chymharu gwir incwm a gwariant gyda'r gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer y flwyddyn. Roedd yr adroddiad yn nodi bod gan y cyngor warged o £122,522 o gymharu gyda gwariant a gyllidebwyd, a'r rhesymau am hynny.

Roedd yr adroddiad hefyd yn manylu symud arfaethedig cronfeydd dros ben i'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol a phenodol yn unol â phenderfyniadau a gymerwyd ac wrth ragweld incwm i ddod.

**PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r trosglwyddiadau arfaethedig canlynol i'r cronfeydd penodol:

- Cronfa wrth gefn ad-dalu SC2 - £100,000
- Loteri Genedlaethol – Rhodio'r Rhyl - £8,500
- Cronfa Wrth Gefn Prosiectau Mawr – £75,000 (£15,000 greiddiol + £60,000)
- Cronfa Wrth Gefn Etholiadau - £5,000

**38. ADRODDIAD SICRHAU IS-GADEIRYDD YR IS-BWYLLGOR ASESU RISG 2020/21**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at adroddiad y Cadeirydd (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) ar ôl ei hap-wiriadau yn unol â rheoliadau ariannol y cyngor mewn perthynas â chysoni banc a gwir daliadau a wnaed, i roi sicrhad ychwanegol i aelodau'r cyngor a threthdalwyr y Rhyl.

**PENDERFYNWYD** derbyn a chydabod yr adroddiad.

### 39. DATGANIAD TALIADAU ARIAN MAN: EBRILL 2020 – MAWRTH 2021

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn gofyn am gymeradwyaeth yr aelodau o wariant o'r cyfrif arian mân yn ystod y 12 mis uchod (atodlen taliadau ynghlwm fel Atodiad A.)

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r taliadau canlynol:

Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau	Swm
Home Bargains – Amrywiol	7.54
B&Q – Arwyddion diogelwch ac ati	40.00
Tâp (Arwyddion Parcio am Ddim y Nadolig)	9.00
Morrisons – Gwobrau Cystadleuaeth Ffenestri	75.00
Wilkos – Fframiau – Cystadleuaeth Ffenestri Nadolig	16.90
<b>Cyfanswm</b>	<b>£148.44</b>

### 40. TREFNIADAU AR GYFER CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR

Rhoddodd Clerc y Dref adroddiad llafar ar y trefniadau ar gyfer y cyfarfod blynyddol. Byddai'r cyfarfod yn bennaf yn un rhithwir gydag ond nifer cyfyngedig o westeion yn bresennol, wedi eu hadnabod ymlaen llaw.

Dywedodd Clerc y Dref y byddai'r cyfarfod hefyd yn cael ei recordio.

Penderfynodd yr aelodau na fyddai angen penderfynu ymlaen llaw ar y personau yn enwebu ac eilio cynigion.

**PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad.

### 41. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – CYN WESTY'R SAVOY A MARCHNAD Y FRENHINES, PROTOCOL ENWI THEATR A GWESTY

Cyflwynodd Clerc y Dref gopi o adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) a baratowyd gan Gyngor Sir Ddinbych ac yn gofyn am farn y Cyngor Tref ar y cynigion i enwi hen theatr a gwesty Marchnad y Frenhines.

Wrth dderbyn yr adroddiad, nododd yr aelodau y byddai wedi bod yn briodol cofnodi enwau hanesyddol eraill megis y Savoy gyda'r enw newydd a gobeithio y byddai busnesau newydd yn barod i ddefnyddio'r enwau.

**PENDERFYNWYD** cefnogi'r enwau a gynigiwyd.

### 42. YMGYNGHORIAD: CYNNIG GAN BT I SYMUD YMAITH AMRYWIOL FLYCHAU FFON YN Y RHYL

Cyflwynodd Clerc y Dref fanylion cynnig gan BT (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) i symud ymaith nifer o flychau ffôn o gwmpas y dref oherwydd defnydd isel a gofynnodd am gyfarwyddyd yr aelodau o ran sut i ymateb.

Cyfeiriad	Galwadau fesul mis ar gyfartaledd
PCO PCO1 ROSEHILL ROAD Y RHYL	1
CYFFORDD PENDRE AVE PCO1 TRELLEWELYN ROAD Y RHYL	23
CYFFORDD LARKMOUNT/GRANGE RD PCO2 GRANGE ROAD	0

Y RHYL	
CYFFORDD MEREDITH CRES PCO1 FFORDD CEFNDY Y RHYL	12
PCO1 RHYDWEN DRIVE Y RHYL	1
GYFERBYN HEULFAN PCO1 RHODFA'R DWYRAIN Y RHYL	12
PCO PCO1 TYNEWYDD ROAD Y RHYL	7

Cafwyd trafodaeth ar gadw'r hen flychau coch yn y dref, gydag ond un ar ôl (yn yr orsaf reilffordd).

**PENDERFYNWYD** peidio â gwrthwynebu.

#### 43. **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD** gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.

#### 44. **COFNODION YR IS-BWYLLGOR ASESU RISG**

Cyflwynwyd cofnodion cyfrinachol (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) cyfarfodydd yr Is-bwyllgor Aseu Risg a gynhaliwyd ar 15fed Marth 2021 a 29ain Mawrth 2021 i'w cymeradwyo.

**PENDERFYNWYD** cydnabod yr argymhellion.

#### 45. **COFNODION YR IS-BWYLLGOR CYNNAL A CHADW TIROEDD**

Cyflwynwyd cofnodion cyfrinachol (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) cyfarfod yr Is-bwyllgor Cynnal a Chadw Tiroedd a gynhaliwyd ar 19eg Ebrill 2021 i'w cymeradwyo.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r argymhellion yn y cofnodion.

#### 46. **CANOLFAN GYMUNEDOL TYNEWYDD**

Cyflwynodd Clerc y Dref adroddiad cyfrinachol yr Is-bwyllgor Aseu Risg (copi'n amgaeedig) yn ymwneud â'r cynnig i drosglwyddo Canolfan Gymunedol Tynewydd i Gymdeithas Gymunedol y Rhyll a gofyn am gymeradwyaeth y cyngor i symud ymlaen i gam nesaf y trosglwyddiad.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r achos busnes dros y trosglwyddiad arfaethedig a'r manteision a geid i'r Cyngor, y Gymdeithas a defnyddwyr y ganolfan o'r trosglwyddiad.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r adroddiad ac awdurdodi Clerc y Dref i symud ymlaen fel y nodwyd yn yr adroddiad.

#### 47. **TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, bu i'r Cadeirydd ddirwyn y cyfarfod i ben.

Cadeirydd: .....

Dyddiad: .....